# CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

# YN CHUBUT

# ADRODDIAD AROLWG 1997

GAN

DR ROBERT OWEN JONES

I'R

SWYDDFA GYMREIG

**CRYNODEB**

- Yn ystod y flwyddyn gyfredol cynyddodd cyfanswm y dosbarthiadau Cymraeg o 32 i 67.
- Cafodd y ddarpariaeth ei hymestyn a'i gwella gan sicrhau dilyniant strwythuredig yn y dysgu a'r addysgu o un lefel ieithyddol i'r llall.
- Gweithreda athrawon y cynllun yn dra effeithiol o fewn y dosbarth ac yn y gymuned. Maent yn hynod o weithgar yn trefnu ac yn ennyn cefnogaeth leol i amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.
- Mae athrawon y cynllun (o Gymru) yn gyfrifol am 65% o'r gwersi Cymraeg.
- Cynyddodd niferoedd y myfyrwyr ar raddfa o 83% o 313 yn 1996 i 573 yn 1997.
- Mae athrawon y cynllun wrthi'n egnïol yn annog ac yn hyfforddi darpar diwtoriaid lleol.
- Rhestrwyd 11 o ddarpar-diwtoriaid Cymraeg gan athrawon y cynllun. Roedd rhain eisoes yn dysgu peth neu yn dysgu ar y cyd gydag athrawon y cynllun. Dewiswyd 5 i fynychu cwrs hyfforddiant pellach yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd yn Hydref/Tachwedd 1997.
- Dewiswyd chwe myfyriwr i fynychu Cwrs Dwys yn y Gymraeg yn Llanbedr Pont Steffan 14 Gorffennaf - 6 Medi.

Dechreuwyd cynllunio ac ysgrifennu defnyddiau cwrs ynghyd â llawlyfr i'r athro.

**Argymhelliad: Swyddfa Gymreig**

- Mae'r cynllun yn llwyddiant diamheuol a'r athrawon yn llawn gyflawni'r targedau a roddwyd iddynt. Dylid parhau â'r cynllun.

**Argymhellion: Gweithredu**

- Dylid ystyried fframwaith ddysgu ddwysach na gwersi unwaith yr wythnos yn ardaloedd Gaiman a Threlew.

- Marchnata - dylid targedu plant a phobl ifanc yn benodol yn Nhrelew, a phobl ifanc yn Esquel/Trefelin. Byddai hynny wedyn yn sicrhau dosbarthiad mwy cytbwys o'r gwahanol haenau oedran yn yr ardaloedd hyn.

- Dylid bwrw ymlaen â sefydlu addysg Gymraeg ôl-feithrin ffurfiol yn Gaiman.

- Dylid sefydlu un pwyllgor gyda chynrychiolaeth o bob ardal dan gadeiryddiaeth cynrychiolydd lleol y Cynllun - Mrs L Gonzalez. Gwaith y pwyllgor fyddai cynllunio, marchnata, gweinyddu a threfnu cyllid.

- Dylid anelu at gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ysgol 1997 - 8 y defnyddiau dysgu ar gyfer y dosbarth dechreuwyr a'r dosbarth blwyddyn 2/3 ynghyd â'r llawlyfrau cyfarwyddiadau priodol i'r athrawon.

Athrawon y cynllun 1997 - 8

| | |
|---|---|
| S Eleri Hughes: | Gaiman |
| Dewi W Evans: | Trelew |
| Hazel Evans: | Esquel/Trefelin |

**CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG YN CHUBUT**

Cyflawnwyd yr arolygaeth rhwng dydd Llun 16 Mehefin a dydd Iau 26 Mehefin. Ar ddechrau'r cyfnod cafwyd trafodaethau â'r tri athro gyda'i gilydd ac yna yn unigol yn ddiweddarach ar ôl mynychu trawstoriad o ddosbarthiadau ym mhob ardal. Cafwyd trafodaethau lluosog a gwerthfawr â Mrs Luned Gonzalez cydlynydd lleol y cynllun. Yn ychwanegol, cyfarfuwyd ag aelodau'r pwyllgorau lleol canlynol i geisio eu hymateb i'r cynllun - Cymdeithasau Cymraeg Esquel a Threfelin, Cymdeithas Dewi Sant Trelew, Cymdeithas Addysg a Diwylliant Camwy, Cymdeithas Gymraeg Porth Madryn, Cymdeithas Gymraeg Rawson ac ag aelodau o Gymdeithas Gymraeg Dolavon. Cafwyd trafodaeth â Sr Masoni, Gweinidog Addysg Talaith Chubut yn y Weinyddiaeth Addysg yn Rawson. Cytunodd i barhau i gefnogi dysgu'r Gymraeg o fewn y cwricwlwm yng Ngholeg Camwy ac yn ysgol gynradd Bryngwyn. Cadarnhaodd y penodid athro/athrawes newydd at y diben hwnnw ym Mryngwyn yn ddioed. Ymwelwyd hefyd â phrifathrawon Escuela Agrotecnica Bryngwyn, Escuela Molino ac Escuela Bilingual Puerta del Sol Trevelin lle dechreuwyd cynnal dosbarthiadau Cymraeg am y tro cyntaf eleni.

Gwelwyd bod athrawon y Cynllun wedi ymgartrefu'n arbennig o dda yn eu hardaloedd a chawsant ymateb calonogol a gwerthfawrogol o du'r cymdeithasau lleol. Sefydlwyd rhychwant o raglenni dysgu cynhwysfawr ym mhob ardal gan geisio cyrraedd pob oedran a phob lefel ieithyddol. Roedd yn galondid gweld bod eu gwaith yn ymestyn yn naturiol o'r dosbarth i'r gymuned leol drwy gyfrwng y gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol a drefnir ganddynt.

Trefnwyd llety ar gyfer y tri athro gan ac ar gost y cymdeithasau lleol ac roedd yr athrawon hwythau yn eu tro yn ddigon hapus â'r darpariaethau. Telir costau teithio lleol yr athrawon gan y pwyllgorau lleol. Gwerthfawrogir eu gwaith yn fawr a dyna'n wir oedd ymateb unigolion y siaradwyd â hwy, yn ogystal â barn y pwyllgorau yr ymgynghorwyd â hwy yn ffurfiol.

1. <u>Effeithiolrwydd y Dysgu</u>

i) <u>Amrediad ac Ansawdd</u>

Cynyddodd cyfanswm y dosbarthiadau Cymraeg o 32 i 67 (90½ awr) yr wythnos ac y maent yn cwmpasu pum lefel ieithyddol:

a) Dechreuwyr
b) Blwyddyn 2
c) Blwyddyn 3/4
ch) Siaradwyr rhugl
d) Cwrs Uwch (Cwrs tiwtoriaid)

Ceir y dewis cyflawn yn Nhrelew a Gaiman oherwydd y dosbarthiadau a gynhaliwyd yno yn ystod y chwe blynedd diwethaf gan athrawon o Gymru dan nawdd Cymdeithas Cymry Ariannin. Yn yr Andes dechreuwyd cynnal dosbarthiadau Cymraeg y llynedd yn Nhrefelin dan arweiniad Mrs Mary Green de Borda. Eleni yn Nhrefelin ceir dosbarthiadau mathau a), b) a d) ond

yn Esquel cynhelir 5 dosbarth ar gyfer dechreuwyr a thri ar gyfer siaradwyr rhugl. Rhagwelir y bydd dosbarthiadau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 yn yr Andes yn 1998. Eleri Hughes - athrawes y cynllun yn Gaiman sy'n gyfrifol am ddysgu'r Cwrs Uwch ac yn y Gaiman yn unig y cynigir y cwrs ar hyn o bryd er bod unigolion o Drelew ac o Ddolavon yn mynychu'r dosbarthiadau. Argymhellir y dylid cynnal y cwrs ar ddydd Sadwrn, yn fisol er mwyn hybu diddordeb mewn trawstoriad ehangach a allai ymgymryd â dysgu'r Gymraeg, yn enwedig rhai o Drelew, Rawson a Phorth Madryn. Oherwydd y pellter ni fydd yn bosibl cynnig y cwrs i ddarpar-diwtoriaid o'r Andes.

Oherwydd amrediad y cyrsiau a gynigir eleni gellir sicrhau dilyniant cyrsiol o un flwyddyn i'r llall ac ni fydd angen i fyfyrwyr ail-adrodd y flwyddyn oherwydd diffyg cwrs addas. Bydd hyn yn sicr yn anogaeth bellach i fyfyrwyr barhau â'u cyrsiau ar ôl cwblhau cwrs y dechreuwyr. Golyga hyn wrth gwrs y ceir cynnydd yn nifer y rhai a ddaw yn rhugl yn yr iaith.

Ceir addysg feithrin Gymraeg mewn tri chanolfan, ac ar hyn o bryd datblygir addysg ôl-feithrin yn Gaiman. Mewn amser y gobaith yw y gwelir datblygiadau tebyg yn Nhrelew ac yn Esquel. Yn ystod blwyddyn ysgol 1996-7 dechreuwyd cynnig y Gymraeg fel pwnc dewisol yn Ysgol Gynradd Bryngwyn ac mynegodd Gweinidog Addysg Talaith Chubut, Sr Masoni yr hoffai weld datblygiad a dilyniant o un flwyddyn i'r llall. Yn ddiweddar apwyntiwyd athrawes Gymraeg yr ysgol yn brifathrawes a pheidiodd y dosbarthiadau Cymraeg dros dro. Penodir athro/athrawes newydd yn ddioed.

Yn y tair ardal llwyddodd y dosbarthiadau i siaradwyr rhugl ac yn wir yn ystod eleni cynyddodd niferoedd y mynychwyr o 43 i 94. Mae'r tyfiant a'r ymestyniad yn natur y ddarpariaeth addysgol Gymraeg yn bur syfrdanol, ond dyma'r union batrwm y disgwylid i'r cynllun presennol ei hybu.

Roedd ansawdd arbennig o dda i'r dysgu a'r addysgu. Roedd y gwersi yn ddiddorol, yn fywiog ac yn ddisgybl-ganolog yn hytrach nac yn athro-ganolog. Drwy ddrilio medrus, chwarae rôl a chynnal sgyrsiau llwyddwyd i gael y disgyblion i ymarfer yr hyn a ddysgid. Roedd safon a nod y gwaith yn y dosbarthiadau i siaradwyr rhugl ac yn y cwrs uwch yn arbennig o uchel. Rhoddir cryn bwyslais ar ymestyn geirfa a meithrin llithrigrwydd drwy gyflwyno amrediad eang o feysydd sy'n ymestyn o drafodaeth ysgolheigaidd ar hanes yr iaith ac astudiaeth fanwl o weithiau beirdd cyfoes ac ysgrifenwyr rhyddiaith i drafodaeth ar gerddoriaeth ysgafn a chaneuon gwerin. Anogir y myfyrwyr i ysgrifennu darnau byrion yn y Gymraeg er mwyn datblygu eu sgiliau yn y cyfrwng ysgrifenedig. Un o ganlyniadau amlwg y dosbarthiadau hyn yw fod siaradwyr y Gymraeg yn llawer mwy hyderus bellach i ddefnyddio'r iaith hyd yn oed yn y cyweiriau yr arferid disgwyl y Sbaeneg ynddynt. Rhydd hyn iddynt gryn foddhad ynghyd â'r sylweddoliad y gallant ddefnyddio'r Gymraeg mewn trawstoriad eang o sefyllfaoedd cymdeithasol a diwylliannol.

Buwyd yn arsylwi mewn sampl gynrychioladol o ddosbarthiadau a gynhwysai bob lefel cyrhaeddiad a phob haen oedran - 35 dosbarth allan o gyfanswm o 67 dosbarth. Rhoes hyn gyfleoedd i arsylwi mewn amrywiaeth o ddosbarthiadau'r athrawon. Y nod gweithredol oedd ceisio ymweld â 50% o ddosbarthiadau wythnosol pob athro/athrawes.

TABL 1 Dosbarthiadau yr ymwelwyd â hwy

| **Tiwtor** | **Y dosbarthiadau a ddysgir** | **Dosbarthiadau a arsylwyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Dechreuwyr** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3/4** | **Siaradwyr rhugl** | **Cwrs tiwtoriaid** |
| Eleri Hughes | 16 | 2 | 1 | 2 | 3 | 1 |
| Dewi W Evans | 18 | - | 2 | 2 | 2 | - |
| Gabriel Restucha | 9 | 2 | 2 | 1 | - | - |
| Carlos Blasetti | 2 | - | - | - | - | - |
| Juan Davies | 2 | - | 1 | - | - | - |
| Mary Zampini | 2 | 1 | 1 | - | - | - |
| Shirley James | 1 | 1 | - | - | - | - |
| Hazel Evans | 16 | 7 | 2 | - | 2 | - |
| Vilma Eleri | 1 | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm yr arsylwi** | | 13 | 9 | 5 | 7 | 1 |

Roeddwn yn dra bodlon â'r hyn a welais ac roeddwn wrth fy modd yn deall bod sgiliau dysgu'r athrawon lleol wedi datblygu'n sylweddol drwy'r cwrs a gynigir a thrwy arsylwi ar wersi athrawon y cynllun.

Yn nhref Gaiman ceir cyfanswm o 40 awr o wersi Cymraeg bob wythnos ac un nodwedd galonogol yma yw bod cnewyllyn da o athrawon lleol wedi datblygu. Yn ystod 1996 roedd tri athro lleol ar gael sef Gabriel Restucha, Carlos Blasetti a Mary Zampini a bellach ychwanegwyd Juan Davies a Nivia Jones at eu rhengoedd. Mae Gabriel Restucha yn dysgu 6 awr yng Ngholeg Camwy a saith awr ychwanegol yn y sector wirfoddol ddi-dâl. Mary Zampini sy'n gyfrifol am y dosbarth meithrin a'r dosbarth ôl-feithrin. Mae Carlos Blasetti yn dysgu plant un ar ddeg mlwydd oed tra bod Juan Davies yn dysgu oedolion. Dosbarth y plant sydd gan Nivia Jones yn Nolavon. Dysgir cyfanswm o 16 awr yr wythnos gan Eleri Hughes ar draws y gwahanol haenau oedran a lefelau ieithyddol. Yn Nhrelew dysgir 18½ awr gan Dewi W Evans ac fe'i cynorthwyir yn Nhrelew gan Alicia Picon ac yn Rawson gan Nancy Jones. Yn Nhrelew Shirley James sy'n gyfrifol am y dosbarth meithrin. Yn yr Andes y mae Hazel Evans yn dysgu 24½ awr yw wythnos ac fe'i cynorthwyir yn rhai o'r dosbarthiadau gan Joyne Powell yn Esquel a chan Mary Green yn Nhrefelin. Vilma Jones sy'n gyfrifol am y dosbarth meithrin yn Esquel. Mae'n dra chalonogol bod athrawon y cynllun wrthi'n hyfforddi darpar-diwtoriaid lleol drwy annog cyd-ddysgu yn eu dosbarthiadau.

TABL 2 Dosbarthiad oriau dysgu pob tiwtor

| | Gaiman | Trelew | Andes |
|---|---|---|---|
| Eleri Hughes | 16 | | |
| Gabriel Restucha | 13 | | |
| Mary Zampini | 6 | | |
| Carlos Blasetti | 2 | | |
| Juan Davies | 2 | | |
| Nivia Jones | 1 (Dolavon) | | |
| Dewi W Evans | | 18½ | |
| Shirley James | | 4 | |
| Hazel Ch Evans | | | 24½ |
| Vilma Jones | | | 4½ |
| **Cyfanswm** | 40 | 22½ | 29 |

Yn Nyffryn Camwy y drefn arferol yw cynnal un sesiwn yr wythnos ar gyfer pob dosbarth heblaw am y dosbarthiadau meithrin a'r dosbarthiadau yng Ngholeg Camwy. Yn yr Andes ar y llaw arall mae bob dosbarth yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos ac o'r herwydd ceir dysgu dwysach sydd o bosibl yn hwyluso ac yn cadarnhau'r broses o ddysgu. Argymhellir yn gryf y dylid ystyried trefn ddysgu ddwysach yn Nhrelew ac yn Gaiman.

Ym mis Awst, ar ôl gwyliau'r gaeaf bwriedir dosbarthu holiadur gwerthuso er mwyn cael adborth gan y myfyrwyr. Ceisir eu barn ar ansawdd y dysgu, effeithiolrwydd y dysgu, eglurder y dysgu, effeithiolrwydd y gweithgareddau ieithyddol a'r defnyddiau dysgu ac amlder a hyd y gwersi.

ii) Niferoedd

Eleni cafwyd cynnydd o 83% ar gyfanrif 1996, sy'n galonogol iawn o ystyried mai'r hyn a ddisgwylid erbyn diwedd tair blynedd y cynllun hwn oedd dyblu niferoedd 1996. Eleni, drwy leoli athrawes yn yr Andes, ychwanegwyd yn sylweddol at y niferoedd, drwy godi'r cyfanrif o 20 a fynychai ddosbarthiadau Cymraeg yn 1996 i 225 yn 1997. Y llynedd ymrestrwyd 313 yn y dosbarthiadau Cymraeg yn y tair canolfan. Eleni cynyddodd hynny i 573. Pan ail-ddechreuir dosbarthiadau Cymraeg yn Ysgol Gynradd Bryngwyn ym mis Awst gellir ychwanegu 40 disgybl arall gan roi cyfanrif o 613. Ar hyn o bryd ceir 237 (+40) myfyriwr yn Gaiman, 111 yn Nhrelew a 225 yn yr Andes. Cafodd lleoli athrawes yn yr Andes gryn effaith ar yr ystadegau ond mae'n bwysig nodi fod cryn gynnydd wedi digwydd yn Nhrelew a Gaiman hefyd. Yn Nyffryn Camwy rhwng 1990 a 1996 gwelwyd cynnydd ar raddfa o 95% yn niferoedd myfyrwyr y dosbarthiadau Cymraeg sef cynnydd o 150 i 293. Lleolid y dosbarthiadau mewn pum canolfan - Gaiman, Dolafon, Trelew, Rawson a Porth Madryn. Yn 1997 estynnwyd y dysgu i ddwy ysgol ym Mryngwyn a chafwyd cynnydd yn y niferoedd ar raddfa o 19% o 293 i 348. Mae hwn yn gynnydd cryfach na'r hyn a gafwyd ynghynt!

Rhestrir yn Nhabl 3 niferoedd yr ymrestriadau yn 1996 ac yn 1997 yn ôl oedran y myfyrwyr.

TABL 3 Ymrestriadau yn ôl haenau oedran

| | 1996 | 1997 | Newid |
|---|---|---|---|
| Oedolion | 124 | 279 | +125% |
| Eilradd (13 - 17) | 118 | 131 | +11% |
| Cynradd (9 - 12) | 31 | 120 | +287% |
| Ôl-feithrin (6 - 7) | 8 | 12 | +50% |
| Meithrin (3 - 5) | 32 | 31 | -3% |
| **Cyfanswm** | 313 | 573 | |

Gwelir bod graddfa'r cynnydd yn amrywio cryn dipyn o haen i haen. Dylid talu sylw arbennig i'r haen feithrin ac i'r arddegau.

Yn 1996 roedd 40% o'r rhai a ymrestrodd yn y dosbarthiadau Cymraeg yn oedolion, 38% yn eu harddegau a 22% yn blant. Yn 1997 cynyddodd cyfran yr oedolion i 49% a chyfran y plant i 28% ond gostyngodd cyfran yr arddegau i 23%. Yn Gaiman yn unig y cafwyd patrymau tebyg i'r hyn a arddangoswyd yn 1996.

TABL 4 Canrannau'r haenau oedran yn y tair canolfan

| | 1996 | 1997 | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gaiman | Trelew | Andes |
| Oedolion | 40% | 40% | 72% | 46% |
| Arddegau | 38% | 36% | 13% | 15% |
| Plant | 22% | 24% | 15% | 39% |

Gwelir bod 60% o'r rhai a ymrestrwyd yn Gaiman o dan 18 mlwydd oed tra nad oes ond 28% o'r rhai a gofrestrwyd yn Nhrelew yn perthyn i'r un haen oedran. Mae angen targedu plant a phobl ifanc yn Nhrelew, a dylid anelu at gael cynnydd pellach yn haen yr arddegau yn Nhrefelin ac Esquel. Yn y tair canolfan dylid rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygu addysg ôl-feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hynny'n sicrhau trawstoriad mwy cytbwys o'r haenau oedran yn y dosbarthiadau Cymraeg. Dylid pwyso ar y cymunedau lleol i gefnogi gwaith y dosbarthiadau meithrin drwy i rai sy'n rhugl eu Cymraeg wirfoddoli i gynorthwyo'r athrawesau. Dylid archwilio'r posibilrwydd o sefydlu dosbarthiadau meithrin yn Nolafon ac yn Nhrefelin.

Yn Nhabl 5 ceir dadansoddiad o ddosbarthiad myfyrwyr yn nhermau oedran a lefelau ieithyddol. Cynhwysir ystadegau 1996 rhwng cromfachau.

TABL 5 Oedran a lefelau ieithyddol

| | **Rhugl** | **Dysgwyr** | **Dechreuwyr** |
|---|---|---|---|
| Oedolion | (43) 94 | (29) 63 | (52) 122 |
| Pobl ifanc | 0 | (52) 47 | (66) 84 |
| Plant | 0 | (13) 38 | (58) 125 |
| % cynnydd | 119% | 57% | 88% |

Mae graddfa cynnydd o 119% yn niferoedd y siaradwyr rhugl yn dra arwyddocaol, ond roedd i'w ddisgwyl gan nad oedd cymunedau'r Andes wedi cael gwasanaeth athro/athrawes o Gymru cyn hyn. Llwyddodd Mrs Evans i sefydlu tri dosbarth ar gyfer siaradwyr rhugl gan ychwanegu 31 at niferoedd y categori hwn. Ymhlith y dosbarth ôl-ddechreuol y gwelwyd y cynnydd lleiaf a dichon bod hyn yn arwydd clir y dylid annog myfyrwyr i barhau ar ôl cwrs y flwyddyn gyntaf. Yn 1996 roedd 176 yn mynychu dosbarthiadau i ddechreuwyr ond oddeutu 30% o'r rhai hynny a aeth ymlaen i ddosbarthiadau'r ail flwyddyn yn 1997. Gyda chynnydd yn y dosbarthiadau ôl-ddechreuol dylid gweld llawer mwy yn parhau gan ddilyn cyrsiau pellach yn 1998.

iii) Cynnal y rhaglen

Mae'r twf yn amrediad y dosbarthiadau a'r cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n mynychu'r dosbarthiadau yn argoeli'n dda i'r dyfodol. Bu'r deffroad a'r diddordeb o fewn y cymunedau yn bur drawiadol a chafwyd ymateb brwdfrydig i'r trawstoriad ehangach o gyrsiau a gynigir nawr. At hynny gellir datgan bod parodrwydd pobl leol i gynorthwyo gyda'r dysgu ac i dderbyn hyfforddiant yn ddatblygiad cwbl allweddol. Yn Gaiman ceir pedwar unigolyn sydd eisoes yn gyfrifol am ddosbarthiadau Cymraeg. Yn Nolafon anogwyd Nivia Jones i gyd-ddysgu ag Eleri Hughes. Yn Nhrelew ac yn yr Andes ceisiodd athrawon y cynllun gymell pobl leol addas i gyd-ddysgu â hwy. Prif ddiben hyn yw hybu diddordeb, cynyddu hyder a chynnig hyfforddiant ymarferol o fewn y dosbarth ei hun.

Ar hyn o bryd athrawon y cynllun sy'n gyfrifol am ddysgu 65% o'r cyrsiau ond yn 1996 roedd 75% o'r cyfrifoldebau dysgu ar ysgwyddau Mr Gwilym Roberts. Mae'n bwysig nodi serch hynny nad yw'r tiwtoriaid lleol yn derbyn tâl am eu llafur, heblaw am athrawon y dosbarthiadau meithrin a'r hyn a gaiff Gabriel Restucha am chwe awr o ddysgu yn ysgol Camwy. Mae ei saith awr arall o ddysgu yn gwbl ddi-dâl.

Prif ddiben y cynllun presennol yw hyfforddi athrawon lleol i ysgwyddo'r gwaith i gyd ar derfyn cyfnod y cynllun. Golyga hynny, annog, creu diddordeb, magu hyder yn ogystal â rhoi hyfforddiant priodol. Mae'n dda dweud bod hynny eisoes ar y gweill, ond bydd yn rhaid rhoi sylw buan i'r ochr gyllidol yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Yn Nhrelew mae Cymdeithas Dewi Sant yn codi $5 y mis ar bob myfyriwr. Codir yr un tâl yn Rawson, ond ym Mhorth Madryn codir $10 y mis. Yn y Gaiman ni chodir tâl o gwbl heblaw am $5 y pen yr wythnos ar ddisgyblion y dosbarth meithrin. Yn yr Andes derbynnir $10 y mis gan bob oedolyn a $5 gan bobl plentyn. Argymhellir y dylid sefydlu Pwyllgor Addysg Gymraeg cyn diwedd y flwyddyn academaidd gyfredol. Dylai aelodau'r pwyllgor gael eu hethol gan y Cymdeithasau Cymraeg lleol dan gadeiryddiaeth cyd-lynydd lleol y cynllun Mrs Luned Gonzalez. Y pwyllgor hwn a ddylai fod yn gyfrifol am gynllunio, marchnata, gweinyddu a threfnu cyllid y dosbarthiadau Cymraeg.

Derbyniwyd dau lungopiydd o swyddfa'r Cyngor Prydeinig yn Buenos Aires. Bwriedir lleoli un yng Ngholeg Camwy at wasanaeth y dosbarthiadau yn Nyffryn Camwy, ac anfonir y llall i'r Andes. Nid ydynt yn weithredol ar hyn o bryd gan fod angen adnewyddu rhai darnau.

iv) Effaith cymdeithasol gwaith yr athrawon

Un o effeithiau uniongyrchol y dosbarthiadau yw'r cynnydd mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol Cymraeg. Cynhaliwyd nosweithiau llawen yn Nhrelew a Gaiman. Trefnwyd noson lawen a dau gyfarfod cymdeithasol arall yn Esquel ac yn Nhrefelin cafwyd noson lawen, sioe ffasiynau, noson gymdeithasol a noson ffilmiau. Yn yr Andes y gwelwyd y newidiadau pennaf o bosibl am na fu athro Cymraeg yn gweithio yno cyn dechrau'r cynllun cyfredol. Yn y gwahanol gymunedau bu'r dosbarthiadau yn sbarduno unigolion i ystwytho'u Cymraeg a i ymestyn eu cyweiriau yn yr iaith. Canlyniad hynny yw fod pobl nawr yn dechrau siarad Cymraeg â'i gilydd am y tro cyntaf ers adeg eu plentyndod.

Yn Gaiman trefnodd disgyblion dosbarthiadau Cymraeg Coleg Camwy eisteddfod ysgol ym mis Ebrill ac roeddynt yn amlwg yng ngweithgareddau mini-eisteddfod Bethel ym Mehefin. Yn ddiweddar dechreuodd dosbarthiadau Cymraeg Coleg Camwy waith cymdeithasol ei naws yn y dref. Ânt i gynorthwyo yn yr Ysgol Feithrin ac i ymweld â phobl hŷn yn eu cartrefi.

Rhydd yr amrywiol nosweithiau cymdeithasol gyfle i siaradwyr rhugl a dysgwyr ddod at ei gilydd yn sŵn y Gymraeg. Gobeithir cynnal Sadyrnau siarad maes o law, a gwersyll haf Cymraeg i ddysgwyr ieuainc ym mis Ionawr.

Mae'n bwysig nodi hefyd i erthyglau gan ddysgwyr ymddangos yn rhifynnau diweddar o'r *Dravod.*

2. Hyfforddi Tiwtoriaid

Mae athrawon y cynllun eisoes yn hyfforddi darpar diwtoriaid drwy eu hannog i arsylwi a chyd-ddysgu. Gall tiwtoriaid a darpar-diwtoriaid Gaiman/Trelew fanteisio ar seminarau wythnosol Eleri Hughes ar dechnegau cyflwyno ail iaith. Gwerthfawrogir y seminarau hyn yn fawr iawn a defnyddir y technegau

a'r syniadau wedyn yn y dosbarthiadau. Gellir rhestru un ar ddeg sydd naill ai eisoes yn diwtor neu yn cyd-diwtora ag un o athrawon y cynllun.

Gaiman

1. **Gabriel Restucha**
   - Mae'n dysgu 13 awr yr wythnos, 6 awr yng Ngholeg Camwy a saith awr yn y dosbarthiadau gwirfoddol.
   - Pobl ifanc yn bennaf sydd yn ei ddosbarthiadau.
   - Mae'n aelod o bwyllgor yr eisteddfod.
   - Mynycha'r Cwrs Tiwtoriaid.
   - Bu ar y Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.

2. **Juan Davies**
   - Mae'n dysgu dwy awr yr wythnos - gwaith gwirfoddol.
   - Oedolion sydd yn ei ddosbarthiadau.
   - Mynycha'r Cwrs Tiwtoriaid
   - Bu ar Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.
   - Mae'n cynnal dosbarthiadau darllen ac ysgrifennu.

3. **Carlos Blasetti**
   - Mae'n dysgu dwy awr yr wythnos - gwaith gwirfoddol.
   - Plant 1- 12 mlwydd oed sydd yn ei ddosbarthiadau.
   - Bu ar y Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.

4. **Nivia Owen**
   - Trefnydd lleol y dosbarthiadau Cymraeg yn Nolafon.
   - Mae'n dysgu dosbarth y plant.
   - Mynycha'r Cwrs Tiwtoriaid.
   - Aelod o bwyllgor yr eisteddfod.

4. **Mary Zampini**
   - Athrawes gynradd ac athrawes gerdd.
   - Hi sy'n gyfrifol am y dosbarth meithrin.
   - Dechreuodd ddosbarth ôl-feithrin.
   - Mae'n debygol mai hi a benodir yn athrawes Gymraeg yn ysgol Gynradd Bryngwyn.
   - Treuliodd gyfnod yng Nghymru yn hyfforddi gyda Mudiad Ysgolion Meithrin.
   - Aelod o bwyllgor yr eisteddfod.

6. **Rebecca Henry**
   - Myfyriwr y Saesneg ym Mhrifysgol Trelew.
   - Mynycha'r Cwrs Cymraeg Uwch.
   - Mynycha'r Cwrs Tiwtoriaid.
   - Mae'n ymddiddori mewn ysgrifennu creadigol yn y Gymraeg.

Trelew

7. **Alicia Picon**
   - Mae'n cynorthwyo'r athro yn nosbarthiadau Trelew.
   - Mynycha'r Cwrs Tiwtoriaid.
   - Bu ar y Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.
   - Byddai'n dda gyda phlant a phobl ifanc.

8. **Nancy Jones**
   - Athrawes ysgol eilradd.
   - Mae'n cynorthwyo'r athro yn nosbarthiadau Rawson.
   - Bu ar y Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.

9. **Shirley James**
   - Athrawes ysgol gynradd.
   - Athrawes dosbarth meithrin Trelew.
   - Mae'n ymddiddori mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig.

Andes

10. **Vilma Eleri Jones**
    - Athrawes gynradd/cerdd.
    - Athrawes dosbarth meithrin Esquel.
    - Bu ar y Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.
    - Gallai ddatblygu addysg gynradd Gymraeg yn Esquel.

11. **Sylvia Baldor Green**
    - Athrawes gerdd.
    - Mae'n cynorthwyo yn y dosbarthiadau yn Nhrefelin.
    - Bu ar y Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.

Maent i gyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac wedi cael peth profiad o ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Am resymau personol ni all pedwar ohonynt deithio eleni, ac felly saith yn unig a ystyriwyd ar gyfer y cwrs hyfforddi yng Nghymru yn ystod Hydref/Tachwedd 1997. Dewiswyd y pum canlynol.

| | |
|---|---|
| Gabriel Restucha: | Pobl ifanc, oedolion |
| Nivia Owen: | Plant/pobl ifanc/oedolion |
| Alicia Picon: | Plant/pobl ifanc/oedolion |
| Vilma Eleri Jones: | Meithrin/ysgol gynradd |
| Mary Zampini: | Ysgol gynradd |

Gellir ystyried y chwech arall ar gyfer Hydref 1998.

Prif amcan y cwrs hyfforddi yn Hydref/Tachwedd yw ymestyn eu cyweiriau gweithredol yn y Gymraeg, gwella eu gafael ar yr iaith a hybu eu hyder wrth gyfathrebu yn llafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg. Bydd cwrs gloywi iaith yn rhan greiddiol o'r hyfforddiant. Elfen arall fydd yr un gefndirol. Bwriedir

cynnal seminarau ar hanes yr iaith, amrywiadau tafodieithol, cymdeithaseg iaith a ieithyddiaeth gymhwysol. Bydd cyflwyniadau hefyd ar lenyddiaeth Gymraeg ac ar hanes a diwylliant Cymru. Methodoleg dysgu fydd y drydedd elfen. Bydd digon o gyfle iddynt fynychu dosbarthiadau Cymraeg i arsylwi - dosbarthiadau i oedolion yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd. Bydd cyfle i arsylwi mewn ysgolion hefyd. Yn ogystal bydd y pump yn mynychu cwrs ar gyfathrebu drwy'r cyfryngau yn y Thomson Foundation, Caerdydd.

3. Cwrs Dwys Cymraeg - Llanbedr Pont Steffan
14 Gorffennaf - 6 Medi 1997

Dewiswyd y canlynol i fynychu'r Cwrs Dwys eleni.

Caren Jones (Gaiman)
Mariana Dominguez (Trelew)
Mario Jones (Trelew)
Natalia Jones (Rawson)
Fernando Coronato (Porth Madryn)
Alin Jones (Trefelin)

Talwyd am eu tocynnau hedfan gan eu cymunedau lleol a threfnodd Mrs Gonzlez lety iddynt yn Llanbedr. Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut fydd yn gyfrifol am y tâl ymrestru ac am gyfrannu lwfans byw wythnosol o £50 i bob myfyriwr am wyth wythnos.

Mynychodd pob un a ddewiswyd, gyrsiau Cymraeg am ddwy, tair neu bedair blynedd a dylent fod yn gwbl rhugl erbyn diwedd cwrs Llanbedr Pont Steffan. Yn y gorffennol yr union rai a anfonwyd ar y cwrs hwn a ddangosodd ddiddordeb yn ddiweddarach mewn tiwtora. Yn wir bu saith o'r rhai a restrwyd uchod fel darpar-diwtoriaid yn fyfyrwyr yn Llanbedr Pont Steffan yn y gorffennol.

4. Defnyddiau Dysgu

Hyd yn hyn, defnyddiodd athrawon y cynllun, gwrs Mr Gwilym Roberts fel sylfaen i'w dysgu, ond bu'r tri'n gweithio'n annibynnol ar ei gilydd. O fis Gorffennaf 1997 ymlaen bydd Eleri Hughes a Dewi Evans yn treulio deuddydd yn wythnos yn datblygu cyrsiau a llawlyfrau i'r athro a rydd ddilyniant strwythurol o gwrs y dechreuwyr i gyrsiau'r ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn. Mae rhoi sylw i gynllunio a datblygu cyrsiau yn gwbl allweddol os yw fframwaith y dosbarthiadau Cymraeg i ffynnu ar ôl cyfnod y cynllun. Mae'n hanfodol cynllunio defnyddiau a fydd yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd â'r Sbaeneg yn brif iaith iddynt. Mae'n rhaid hefyd wrth ddatblygiad strwythurol yn nhermau cyflwyno geirfa, gramadeg, cyweiriau a'r amrywiadau cyfrwng - llafar/ysgrifenedig. Bydd llunio llawlyfr i athrawon yn fater arall holl bwysig. Oherwydd rhwystrau daearyddol ni fydd yn bosibl i Mrs Hazel Evans allu cyfrannu i'r trafodaethau wythnosol, ond byddai'n

syniad ardderchog pe galli'r tri gyfarfod â'i gilydd ar un penwythnos bob rhyw chwe wythnos. Wedyn byddai modd i Mrs Evans gyfrannu i ddatblygiad y gwerslyfrau. Pwysleisiwyd bod angen blaenoriaethu'r gwaith hwn yn arbennig os gweinyddir fframwaith gredydau fel yr un a weinyddir yng Nghymru - Rhwydwaith y Coleg Agored (O.C.N.).

Anfonir defnyddiau dysgu'r Cyd Bwyllgor Addysg - *Dosbarthiadau Nos* ynghyd â gwybodaeth a phrofion O.C.N. rhag blaen. Bydd datblygu defnyddiau priodol ar gyfer blwyddyn 4 a blwyddyn 5 yn rhan bwysig o weithgaredd y flwyddyn academaidd nesaf - 1998 - 9.

Yn ddelfrydol dylid llunio defnyddiau tâp i gyd-fynd â'r gwersi a'r llawlyfrau a baratoir.

Yn yr Andes mynegwyd cryn frwdfrydedd ynglŷn â dechrau rhaglenni dysgu Cymraeg ar y radio. Cefnogwyd y syniad yn gryf gan Mr Mario Jones o Radio Trefelin. Pe byddai rhaglen o'r fath yn cael ei darlledu gallai gynhyrchu diddordeb, newid agweddau ac ychwanegu at niferoedd y rhai sy'n mynychu'r dosbarthiadau Cymraeg. Argymhellir bod deunydd megis *Catchphrase/Now You're Talking* yn cael ei anfon at Mrs Hazel Evans i weld a oes modd addasu'r deunydd neu greu cwrs newydd ar gyfer Radio Trefelin.

Bydd Eleri Hughes yn cyd-weithio â Mary Zampini gyda'r bwriad o ddatblygu maes llafur Cymraeg ei gyfrwng ar gyfer plant ôl-feithrin.

Dechreuodd Mrs Mary Green de Borda weithio ar lunio geiriadur Cymraeg/Sbaeneg. Mae hi'n berson tra chymwys ar gyfer y gwaith, gan iddi dderbyn gradd anrhydedd yn y Gymraeg a'r Sbaeneg ym Mhrifysgol Cymru Abertawe yn 1979. Mae'n bosibl y bydd hi angen cymorth â dulliau geiriadurol maes o law.

5. Eisteddfod

Cafwyd cyfarfod buddiol â Mr Dewi M Hughes ar ôl iddo ddychwelyd o Gymru. Gwnaeth gysylltiadau da yn rhengoedd gweinyddiaeth a rheolaeth yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd. Cafodd gyfle i ddysgu am agweddau cyllidol a marchnata'r ddau sefydliad ond daeth i weld bod eisteddfodau'r Wladfa yn rhai a drefnir ar raddfa llawer llai. Bydd yn cyflwyno nifer o awgrymiadau i'w bwyllgor lleol.

- Awgryma sefydlu cysylltiadau rhwng yr eisteddfod ac ysgolion yr ardal.
- Bydd yn argymell sefydlu eisteddfodau cylch a buddugwyr y rhai hynny a fyddai wedyn yn cystadlu yn Eisteddfod y Plant a'r Ieuenctid a gynhelir ym mis Awst.

- Awgryma sefydlu is-bwyllgorau yn y gwahanol ardaloedd a fyddai'n gyfrifol am godi cyllid yn lleol.

- Awgryma fod angen ystyried o ddifrif ddulliau i sicrhau nawdd i'r Eisteddfod o amrywiol ffynonellau.

6. <u>Y Dravod</u>

Trefnwyd cyfweliad â golygydd y *Dravod.* Roedd hi'n hynod o ddiolchgar am y diddordeb a'r cymorth a gafwyd drwy'r cynllun hwn. Mae'r offer cyfrifiadurol a roddwyd yn rhodd gan y Llysgenhadaeth Brydeinig yn Buenos Aires, bellach wedi ei leoli yng Ngholeg Camwy. Nis defnyddir hyd nes y bydd person cymwys wedi derbyn yr hyfforddiant arbenigol pwrpasol. Ym marn Mrs Hughes de Jones mae sefyllfa'r *Dravod* wedi gwella peth yn ystod y flwyddyn. Rhoes y dosbarthiadau Cymraeg yr union hyder i siaradwyr rhugl a'u galluogodd i fentro ysgrifennu ac yn ôl Mrs Jones derbyniasai eisoes nifer o erthyglau gan 'gyfranwyr newydd'. Cafwyd adran hefyd i'r dysgwyr yn y *Dravod* Gobeithir y bydd budd yn deillio o'r hyfforddiant a roddir i'r darpar diwtoriaid gan 'Thomson Foundation'.

Dylid hybu'r wedd hon ar fywyd Cymraeg y Wladfa drwy gydol gweddill cyfnod y cynllun.